**9 Chwefror 2024**


**Karen Jones**
**CnPTCBS**
**Y Ganolfan Ddinesig**
**Port Talbot**
**SA13 1PJ**


Annwyl Randdeiliad,

**Parthed: Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu –**
**Ardal Heddlu De Cymru dydd Iau 2 Mai 2024**

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu (SCAH) ar gyfer y ardal heddlu De Cymru, ysgrifennaf i ddarparu gwybodaeth allweddol a dyddiadau perthnasol ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) y bwriedir ei gynnal ddydd Iau 2 Mai 2024.

**Cyflwyniad**

Mae pedair ardal heddlu yng Nghymru sef De Cymru, Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Mae De Cymru'n cynnwys ardaloedd gweinyddol saith awdurdod unedol - Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Llywodraethir y broses Etholiad gan delerau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a deddfwriaeth berthnasol arall. Caf fy nghynorthwyo yn fy nyletswyddau gan chwe swyddog canlyniadau lleol (SCLl) o'r awdurdodau lleol eraill sydd hefyd yn ddarostyngedig i ofynion a chanllawiau deddfwriaethol cenedlaethol.

**Rôl Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu (SCAH)**

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu (SCAH), rwy'n gyfrifol am y modd y cynhelir etholiad CHTh ar gyfer ardal heddlu De Cymru yn gyffredinol, ac am gysylltu â'r SCLlau yn ardal heddlu De Cymru.

Rwyf hefyd yn gyfrifol am roi hysbysiad o'r etholiad, y weithdrefn enwebu, annog cyfranogiad, sicrhau y cydymffurfir â gofynion anerchiadau etholiadol ymgeiswyr a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r anerchiadau hynny, coladu cyfansymiau lleol a chyfrifo'r canlyniad ac yn olaf, datgan y canlyniad.

**Rôl y Swyddog Canlyniadau Lleol (SCLl)**

Mae Swyddogion Canlyniadau Lleol (SCLlau) yn gyfrifol am sicrhau bod yr etholiad yn cael ei weinyddu'n effeithiol yn eu hardal bleidleisio, gan gynnwys darparu gorsafoedd pleidleisio, argraffu papurau pleidleisio, penodi staff gorsafoedd pleidleisio, cynnal yr etholiad, rheoli'r broses pleidlais drwy'r post, gwirio a chyfrif yn eu hardal bleidleisio a throsglwyddo'r cyfansymiau lleol i'r SCAH.

**Etholiadau Cyfunol Posib**

Yng Nghymru, mae disgwyl i etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2024 gael eu cynnal ddydd Iau 2 Mai.

Fodd bynnag, erys posibilrwydd o gynnal etholiad cyffredinol Seneddol y DU ar yr un diwrnod hefyd, a hynny ar fyr rybudd.

Oherwydd y gallai'r trefniant hwn fod yn gymhleth ac i geisio lleihau'r risg o fewn y broses etholiadol, mae posibilrwydd o gynnal etholiadau ar y cyd wedi'i gynnwys yn fy holl gynllunio etholiadol logistaidd gan gynnwys gwirio ac amseru prosesau cyfrif etholiadau CHTh.

**Ymgeiswyr ac Asiantiaid**

Bydd gwefan bwrpasol ar gael i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantiaid, a chaiff ei diweddaru maes o law gyda dolenni i'r ffurflenni y gellir eu lawrlwytho (gan gynnwys y pecyn enwebu) a diweddariadau eraill gan SCAH. Ewch i:

www.npt.gov.uk/etholiadau

Ar dydd Llun 11 Mawrth 2024 am 3:30pm drwy Microsoft Teams bydd cynrychiolydd o'r Comisiwn Etholiadol, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu De Cymru a minnau'n cynnal sesiwn friffio i ymgeiswyr ac asiantiaid ac yn rhoi trosolwg o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Bydd y sesiwn friffio'n darparu gwybodaeth hanfodol i ddarpar ymgeiswyr a'u hasiantiaid, gan gynnwys y weithdrefn enwebu, gwybodaeth am bleidleisio, y broses wirio a chyfrif, gwariant ymgeiswyr a threuliau'r etholiad ac yn olaf rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a threfniadau ar gyfer datgan derbyn swydd ar gyfer yr ymgeisydd etholedig.

Darperir sesiwn friffio ychwanegol hefyd ar ôl i enwebiadau gau ddydd Iau 18 April am 11:00am.

**Diwrnod Pleidleisio**

Cynhelir yr etholiad **ddydd Iau 2 Mai 2024 o 7am tan 10pm.** Bydd pob SCLl yn gyfrifol am y ffordd y cynhelir y broses bleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio yn eu hardal bleidleisio.

Bydd papurau pleidleisio'n cael eu hargraffu gyda Marc Adnabod Unigryw (MAU) sy'n arbennig i bob ardal bleidleisio SCLl ynghyd â marc swyddogol a osodwyd gan y SCAH.

Lliw'r Papur Pleidleisio ar gyfer ardal heddlu De Cymru fydd **Llwyd Golau**.

**Gwirio a Chyfrif**

Bydd proses gwirio a chyfrif Etholiad CHTh yn cael ei chynnal mewn canolfannau cyfrif lleol ar draws ardal De Cymru gyda chanolfan ranbarthol â'i leoliad yn Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot, SA13 1PJ lle byddaf yn datgan canlyniad terfynol yr etholiad. Mae'r broses i'w dilyn yn gofyn am ddatganiadau canlyniadau lleol ym mhob ardal awdurdod ac wedyn canlyniad cyffredinol a goladwyd ar gyfer De Cymru.

Bydd pob SCLlau yn Ardal Heddlu De Cymru yn dechrau'r gwiriad ddydd Gwener, 3 Mai, 2024 os bydd etholiad CHTh yn cael ei gynnal fel pleidlais annibynnol.

Bydd y cyfrif yn dechrau ar ôl i'r broses wirio ddod i ben ddydd Gwener, 3 Mai, 2024, os bydd etholiad CHTh yn cael ei gynnal fel pleidlais annibynnol.

Os cyfunir y bleidlais ag etholiad Seneddol y DU, ar gyfer y ddau etholiad, cynhelir y broses wirio ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau am 10pm nos Iau 2 Mai, gyda'r cyfrif yn cael ei ohirio tan ddydd Sul, 5 Mai, 2024.

Bydd pob SCLl yn gyfrifol am roi'r cyfansymiau gwirio i fi fy hun, ac ar ddiwedd y broses wirio bydd pob SCLl hefyd yn diogelu'r holl bapurau pleidleisio tan ddechrau'r broses gyfrif.

Bydd y cyfrif yn cael ei weinyddu gan ddefnyddio'r system bleidleisio 'Y Cyntaf i'r Felin', yn hytrach na'r system Pleidlais Atodol fel y'i defnyddiwyd ar gyfer etholiadau blaenorol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae hyn oherwydd newid yn y gyfraith a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU drwy Ddeddf Etholiadau 2022.

Fel SCAH, byddaf yn darparu diweddariadau yn y ganolfan ranbarthol drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol i SCLlau drwy gydol y gwiriadau a'r cyfrif, er oherwydd maint Ardal Heddlu De Cymru, mae'n dal yn anodd amcangyfrif pa mor hir y bydd y broses gyfrif yn ei chymryd a bydd fy mhwyslais ar gywirdeb yn hytrach na chyflymder.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth uchod o gymorth ac yn nodi'r cynllunio cychwynnol tuag at etholiad CHTh effeithiol ac effeithlon yn ardal Heddlu De Cymru. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, ewch i:

www.npt.gov.uk/etholiadau

neu cysylltwch â Rhys George, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Ffôn: 01639 763330, e-bost: r.j.george@npt.gov.uk).

Rwyf hefyd yn gofyn i SCLlau drefnu bod y llythyr hwn ar gael yn ehangach, gan gynnwys aelodau etholedig eu hawdurdod lleol.

Yn gywir,

**Karen Jones**
**Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu De Cymru**

**Atodiad 1**
**Dyddiadau allweddol etholiadau CHTh annibynnol**

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| Dydd Llun, 11 Mawrth 2024<br>(3:30pm-4:30pm) | Sesiwn friffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid (cyn yr enwebiadau) |
| Dydd Llun, 25 Mawrth 2024 | Hysbysiad o etholiad |
| Dydd Mawrth 26 Mawrth 2024 - dydd Gwener 5 Ebrill 2024<br>(rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith) | Cyflwyno'r papurau enwebu |
| Dydd Gwener 5 Ebrill 2024<br>(erbyn 4:00pm) | Terfyn amser ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl |
| Dydd Gwener 5 Ebrill 2024<br>(erbyn 4:00pm) | Dyddiad cau ar gyfer rhoi gwybod am benodi asiantiaid etholiadol |
| Dydd Llun 8 Ebrill 2024<br>(erbyn 4:00pm) | Datganiad o bobl a enwebwyd |
| Dydd Iau 18 Ebrill 2024<br>(11:00am-12:00pm) | Sesiwn friffio i ymgeiswyr ac asiantiaid (ar ôl yr enwebiadau) |
| Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i gofrestru. |
| Dydd Mercher 17 Ebrill 2024<br>(erbyn 5:00pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn neu ddiwygio ceisiadau am bleidlais drwy'r post |
| Dydd Mercher 24 Ebrill 2024<br>(erbyn 5pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am Dystysgrifau Awdurdod Pleidleiswyr |

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| Dydd Mercher 24 Ebrill 2024 (erbyn 5:00pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau pleidlais drwy ddirprwy |
| erbyn dydd Mercher 24 Ebrill 2024 fan bellaf (erbyn 5:00pm) | Cyhoeddi Hysbysiad o Bleidlais |
| Dydd Iau 2 Mai 2024 | Diwrnod Pleidleisio |
| Dydd Gwener 3 Mai 2024 (gan ddechrau erbyn 10am) os yw'n annibynnol<br>neu ddydd Sul 5 Mai 2024 (gan ddechrau am 10am) os caiff ei gyfuno ag Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU | Proses gwirio a chyfrif CHTh |

**Atodiad 2**
**Dolenni a chysylltiadau defnyddiol**

| Cyswllt | Dolenni'r We |
|---|---|
| Gwefan SCAH De Cymru | www.npt.gov.uk/etholiadau |
| Y Comisiwn Etholiadol | www.electoralcommission.org.uk/cymru/home |
| Swyddfa CHTh De Cymru | www.southwalescommissioner.org.uk/cy |

| Cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|
| SCAH De Cymru – Karen Jones | chief.executive@npt.gov.uk |
| SCLl – Pen-y-bont ar Ogwr | mark.shephard@bridgend.gov.uk |
| SCLl – Dinas a Sir Caerdydd | paul.orders@cardiff.gov.uk |
| SCLl – Merthyr Tudful | ellis.cooper@cardiff.gov.uk |
| SCLl – Castell-nedd Port Talbot | chief.executive@npt.gov.uk |
| SCLl - Rhondda Cynon Taf | andrew.s.wilkins@rctcbc.gov.uk |
| SCLl - Dinas a Sir Abertawe | martin.nicholls@swansea.gov.uk |
| SCLl – Bro Morgannwg | drthomas@valeofglamorgan.gov.uk |
| | |
| Gwasanaethau Etholiadol – Pen-y-bont ar Ogwr | electoral@bridgend.gov.uk |
| Gwasanaethau Etholiadol – Caerdydd | electoralservices@cardiff.gov.uk |
| Gwasanaethau Etholiadol – Merthyr Tudful | electoral@merthyr.gov.uk |
| Gwasanaethau Etholiadol – Castell-nedd Port Talbot | etholiadau@npt.gov.uk |
| Gwasanaethau Etholiadol – RhCT | electoralservices@rctcbc.gov.uk |
| Gwasanaethau Etholiadol – Abertawe | elections@swansea.gov.uk |
| Gwasanaethau Etholiadol – Bro Morgannwg | electoralregistration@valeofglamorgan.gov.uk |